# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**2014 dccc 4**

**RHAN 5**

CODI FFIOEDD AC ASESIADAU ARIANNOL

*Gorfodi dyledion*

### 71 Creu arwystl dros fuddiant mewn tir

(1) Pan fo person—

(a) yn methu â thalu i awdurdod lleol swm y gallai'r awdurdod ei adennill o dan y Rhan hon, a

(b) yn meddu ar fuddiant cyfreithiol neu lesiannol mewn tir yng Nghymru neu Loegr,

caiff yr awdurdod lleol greu arwystl o blaid yr awdurdod hwnnw dros fuddiant y person yn y tir i sicrhau bod y swm hwnnw'n cael ei dalu.

(2) Pan fo gan y person fuddiannau mewn mwy nag un parsel o dir, caiff yr awdurdod lleol greu arwystl dros ba un bynnag o'r buddiannau hynny y mae'n ei ddewis.

(3) Caiff yr arwystl fod mewn cysylltiad ag unrhyw swm y gallai'r awdurdod lleol ei adennill o dan y Rhan hon; ond mae hynny'n ddarostyngedig i is-adran (4).

(4) Pan fo'r arwystl yn cael ei greu dros fuddiant cyd-denant ecwitïol mewn tir, ni chaniateir i swm yr arwystl fod yn fwy na gwerth y buddiant a fyddai gan y person yn y tir pe bai'r gyd-denantiaeth yn cael ei hollti (ond nid yw creu'r arwystl yn hollti'r gyd-denantiaeth).

(5) Pan fo cyd-denant ecwitïol mewn tir y mae ei fuddiant yn y tir yn ddarostyngedig i arwystl o dan yr adran hon yn marw, mae buddiant y personau canlynol mewn tir yn dod yn ddarostyngedig i arwystl—

(a) os oes unrhyw cyd-denantiaid sy'n goroesi, eu buddiannau yn y tir;

(b) os yw'r tir wedi ei freinio mewn un person, neu y mae hawl gan un person i gael y tir wedi ei freinio ynddo ef, buddiant y person hwnnw yn y tir.

(6) Ni chaniateir i swm yr arwystl sydd wedi ei greu o dan is-adran (5) fod yn fwy na swm yr arwystl yr oedd buddiant y cyd-denant ymadawedig yn ddarostyngedig iddo.

(7) Rhaid i arwystl o dan yr adran hon gael ei greu gan ddatganiad ysgrifenedig a wneir gan yr awdurdod lleol.

(8) Mae arwystl o dan yr adran hon, ac eithrio ffi dros fuddiant cyd-denant ecwitïol mewn tir—

(a) yn achos tir anghofrestredig, yn bridiant tir Dosbarth B o fewn ystyr adran 2 o Ddeddf Pridiannau Tir 1972;

(b) yn achos tir cofrestredig, yn arwystl cofrestradwy sy'n dod yn weithredol fel arwystl drwy gyfrwng morgais cyfreithiol.

(9) Pan fo swm yn destun arwystl dros fuddiant person mewn tir o dan yr adran hon, caniateir codi llog ar y swm hwnnw o'r diwrnod y mae'r person a grybwyllwyd yn is-adran (1) yn marw.

(10) Cyfradd y llog y gellir ei godi o dan is-adran (9) yw—

(a) cyfradd a bennir mewn rheoliadau neu a ddyfernir yn unol â hwy, neu

(b) os nad oes rheoliadau wedi eu gwneud, cyfradd a ddyfernir gan yr awdurdod lleol.